PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI

ADRODDIAD I'R CYFARFOD LLAWN O DAN REOL SEFYDLOG 9.9: MIS MAI 2001 TAN FIS EBRILL 2002

1 Cyflwyniad

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi ein gweithgareddau o fis Mai 2001 tan fis Ebrill 2002. Gellir darllen copïau o adroddiadau, agendâu, papurau, cofnodion a thrawsgrifiadau ein cyfarfodydd ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol (1).

1.2 Cynhaliwyd 17 o gyfarfodydd yn ystod y cyfnod dan sylw.

2 Aelodau

2.1 Ar hyn o bryd aelodau'r Pwyllgor yw: Gwenda Thomas (Cadeirydd), Peter Black, William Graham, Edwina Hart (Gweinidog Cyllid, Llywodraeth Leol a Thai), Pauline Jarman, Peter Law, Dai Lloyd, Tom Middlehurst and Janet Ryder. Ymunodd Pauline Jarman yn lle Janet Davies ar 21 Mawrth 2002.

3 Cylch Gorchwyl a Chyfrifoldebau

3.1 Mae cylch gorchwyl y pwyllgor yn seiliedig ar bortffolio'r Gweinidog Cyllid, Llywodraeth Leol a Thai, Edwina Hart. Mae'n cynnwys polisi a chyllid llywodraeth leol, tai, adfywio trefol ac atal troseddu. Nid yw, fodd bynnag, yn mynd i'r afael â chyfrifoldebau Edwina Hart fel Gweinidog Cyllid.

3.2 Nodir cyfrifoldebau'r pwyllgorau pwnc yn Rheol Sefydlog 9.

4 Nodau, amcanion a blaenoriaethau

4.1 Nod y Pwyllgor yw gwella ansawdd bywyd pobl Cymru a hyrwyddo llywodraeth well a symlach. Ein hamcanion yw:

- helpu pobl leol, yn arbennig y rheini sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig, i ddatblygu cymunedau hyderus, gyda chartrefi gweddus, cyfleusterau lleol da ac amgylchedd o ansawdd uchel, sy'n anfygythiol a heb drosedd;

- darparu gwerth am arian i bobl Cymru, gyda gwasanaethau gwell a mwy effeithlon;

- symleiddio gwaith y Cynulliad a rhoi llawer mwy o bwyslais ar anghenion a barn ein partneriaid a'r cyhoedd, gan gynnwys grwpiau nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n deg.

4.2 Mae'r nodau a'r amcanion hyn yn cydfynd â'r rhai a bennwyd yn *Gwellcymru.com*, cynllun strategol y Cynulliad.

4.3 Rydym yn ystyred bod y canlynol o bwys neilltuol:

- datblygu strategaeth dai genedlaethol, gyda'r bwriad o sicrhau bod gan bawb gartrefi gweddus, a chael gwared ar ddigartrefedd;

- moderneiddio llywodraeth leol, gan gynnwys datblygu strwythurau rheoli gwleidyddol newydd, cyflwyno cytundebau polisi, datblygu'r gyfundrefn gwerth gorau a chyflwyno strategaethau cymuned ac ystyried rôl awdurdodau lleol fel arweinwyr cymunedol;

- cyflwyno a datblygu fformiwla safonol diwygiedig ar gyfer asesu gwariant, fel bod y cymorth refeniw ar gyfer awdurdodau lleol yn cael ei ddyrannu ar sail asesiad tecach o'u hanghenion.

5 Ein Gwaith a'r Hyn a Gyflawnwyd Hyd yn Hyn

Datblygu Polisi – Rheol Sefydlog 9.7(i)

(i) *Adolygiad o'r Polisi ar Adfywio Cymunedol*

Cytunodd y Pwyllgor i ymgymryd ag adolygiad trwyadl o'r polisi a'r rhaglenni sydd wedi'u hanelu at adfywio cymunedol ac sydd wedi'u mabwysiadu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r cyrff a noddir ganddo. Prif fwriad yr adolygiad yw cynnig argymhellion i symleiddio ein rhaglenni presennol a gwella trefniadau darparu ac ariannu mecanweithiau. Cynhaliwyd ymgynghoriad ysgrifenedig yn ystod haf 2001 a chafodd ei gynnwys yn yr arolwg. Cynhaliwyd nifer o sesiynau ymgynghori ar lafar fel rhan o gyfarfodydd y Pwyllgor bob pythefnos a chynhaliwyd dau gyfarfod ychwanegol i drafod yr adolygiad (2). Yn ogystal fe wnaeth y Pwyllgor ymweld â grwpiau a sefydliadau cymunedol trwy Gymru. Ar ôl ystyried y materion a fydd yn codi yn ystod tymor yr haf, bydd yr adroddiad terfynol, gan gynnwys yr argymhellion, yn cael ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2002.

(ii) *Cyfrannu at ddatblygu polisi*

Rydym wedi parhau i weithio mewn modd agored a chyfranogol. Rydym wedi bod yn awyddus i glywed safbwyntiau cyrff a sefydliadau allanol i oleuo'n trafodaethau ac i'n cynorthwyo gyda'n hystyriaethau (3).

Yn ogystal â'n hadolygiad polisi ein hunain, cyfranodd y Pwyllgor at ddatblygiadau polisi allweddol y Gweinidog Cyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau.

Tai ac adfywio cymunedau

Mae'r Pwyllgor wedi parhau i gefnogi datblygiad a gweithrediad y strategaeth dai genedlaethol, gan ystyried yn fanwl yr ymatebion i'r papur ymgynghori *Cartrefi Gwell i Bobl Cymru* a'r cynllun gweithredu, sef prif gyfrwng mesur hynt y strategaeth yn y dyfodol.

Mae'r Pwyllgor wedi ystyried nifer o agweddau polisi tai ac roedd yn arbennig o awyddus i gefnogi gwaith y Comisiwn Digartrefedd a'r agenda Perchnogaeth Tai Cost Isel.

Mae'r Pwyllgor wedi cymryd diddordeb yn natblygiad rhaglen *Cymunedau'n Gyntaf*, wrth ystyried yr ymatebion i'r ail ymgynghoriad, y fframwaith drafft ar gyfer yr arweiniad a'r fframwaith a'r arweiniad polisi terfynol.

Moderneiddio Llywodraeth Leol

Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr adroddiad ar weithrediad Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol yn ystod blwyddyn ariannol 2000-01. Parhaodd i gymryd diddordeb yn y rhaglen moderneiddio llywodraeth leol, gan ystyried yn fanwl adroddiad yr Institute of Local Government Studies, Birmingham ar lwfansau cynghorwyr a chynigion awdurdodau lleol am strwythurau rheoli gwleidyddol newydd.

Ym mis Tachwedd 2001 derbyniodd y Pwyllgor gyflwyniad gan gynrychiolwyr Fforwm Cyngorau Lleol Cymru a bu'n ystyried rôl cynghorau tref a chymuned cyn yr astudiaeth gwmpasu arfaethedig.

Cyllid Llywodraeth Leol

Parhaodd y Pwyllgor i gymryd diddordeb yn yr adolygiad o systemau cyllid llywodraeth leol ac yn ddiweddar bu'n ystyrie yn fanwl cynnwys arfaethedig y Papur Polisi ar Lywodraeth Leol, sy'n cyfateb i Bapur Gwyn yr Adran Drafnidiaeth, Llywodraeth Leol a'r Rhanbarthau ar lywodraeth leol.

Ym mis Mai 2001, bu'r Pwyllgor yn ystyried Partneriaethau Cyhoeddus Preifat a Mentrau Cyllid Preifat. Wrth wneud hynny, cafwyd cyflwyniadau gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a TUC Cymru.

Lleihau Trosedd

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad ar hynt Rhaglen Gostwng Troseddau Cymru ym mis Mai 2001 a chafwyd cyflwyniadau gan Wasanaeth Tân Cymru, Gwasanaeth Heddlu Cymru a Gwasanaeth Prawf Cymru a Lloegr.

Materion trawsbynciol

Bu'r Pwyllgor yn ystyried effeithiau polisïau a rhaglenni o fewn ei gylch gorchwyl ar yr Iaith Gymraeg er mwyn hysbysu adolygiad polisi'r Pwyllgor Diwylliant. Wrth wneud hynny, derbyniodd y Pwyllgor gyflwyniad gan Cymuned ar faterion tai a'r iaith Gymraeg.

Yn dilyn trafodaeth y Pwyllgor ar raglenni tai i'r henoed ac ymchwil tai, teimlodd yr Aelodau ei bod yn hanfodol bod y Strategaeth Pobl Hyn yng Nghymru yn ystyried anghenion tai pobl hyn a'r henoed. O ganlyniad, ym mis Ionawr 2002 bu'r Pwyllgor yn ystyred y materion tai y bydd y Strategaeth yn

mynd i'r afael â hwy a phasiwyd y safbwyntiau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Adolygu Gwariant a Gweinyddiaeth (Rheol Sefydlog 9.7 (ii))

Fe wnaeth y Pwyllgor graffu ar adroddiad y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau i'r Pwyllgor bob pythefnos. Parhaodd y Gweinidog i ddarparu adroddiadau llafar ac ysgrifenedig yn ôl gofyn y Pwyllgor.

Adolygu Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (Rheol Sefydlog 9.7 (iii))

Cymharol brin yw'r Cyrff Cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad yng nghylch gorchwyl y Pwyllgor. Yn ystod tymor yr hydref, bu'r Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol ar gyfer 2000-01.

Deddfwriaeth (Rheol Sefydlog 9.8 (i))

Ni dderbyniodd y Pwyllgor wahoddiad i graffu ar unrhyw is-ddeddfwriaeth ddrafft yn unol â Rheol Sefydlog 22. Fodd bynnag, rhoddir cyfle i'r Pwyllgor roi sylwadau ar ddeddfwriaeth sydd ar ddod ac sydd o fewn ei gylch gorchwyl, a oedd yn cynnwys adroddiad ysgrifenedig misol y Gweinidog. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor am hynt datblygiad is-ddeddfwriaeth o fewn ei gylch gorchwyl.

Bu'r Pwyllgor yn ystyriodd y newidiadau arfaethedig i drefniadau adnewyddu'r sector preifat cyn iddo gael ei drafod mewn cyfarfod llawn yn ystod mis Ebrill. Cafodd y newidiadau eu cyflwyno gan ddefnyddio Gorchymyn Diwygio Rheoliadol o dan Ddeddf Diwygio Rheoliadol 2000.

Yn ystod tymor yr Hydref bu'r Pwyllgor yn ystyried goblygiadau'r Mesur Digartrefedd i Gymru, a rhoddodd adroddiad i'r cyfarfod llawn.

Y Gyllideb (Rheol Sefydlog 9.8 (ii))

Yn ystod tymor yr haf bu'r Pwyllgor yn ystyried papur comisiynu ar gylch cyllideb 2001, ynghyd â phapur materion y Gweinidog. Ar sail y trafodaethau hyn, hysbysodd y Pwyllgor y Cabinet o'i flaenoriaethau i'r gyllideb.

Cyn cynnig sylwadadu ar y gyllideb ddrafft yn yr hydref, bu'r Pwyllgor yn gwrando ar gyflwyniad gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn nodi ei hachos ynghylch buddsoddi yng ngwasanaethau ac asedau llywodraeth leol.

Cwynion (Rheol Sefydlog 9.8(iii))

Ni chyfeiriwyd unrhyw gwynion atom yn ystod y cyfnod dan sylw.

Penodiadau Cyhoeddus (Rheol Sefydlog 9.8 (iv))

Ymgynghorwyd ag aelodau'r Pwyllgor a enwebwyd (4) i ystyried penodiadau cyhoeddus Cadeirydd ac aelodau Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol.

Blaenraglen

6.1 Gan edrych tua'r dyfodol, amgaeir ein rhaglen waith strategol ar gyfer 2002-03 a'n rhaglen waith fanwl ar gyfer y cyfnod o fis Mai tan fis Gorffennaf 2002.

Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai
Mai 2002

(1) Gweler www.cymru.gov.uk am dudalennau'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai yn www.cymru.gov.uk/keypubassemeplntrans/index.htm
(2) Daeth y cyrff canlynol i'r sesiynau ymgynghori llafar: Age Concern, Menter Dyffryn Aman, Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo, Community Agents of Change for the Valleys, Menter Gymunedol Cymru, Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol, Materion Cymunedol, ELWa, NIACE Cysgu Cymru, People and Work Unit, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys, Cymdeithas Tai Rhondda, Coleg Rhyl, Cyngfor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Awdrdod Datblygu Cymru, Ffederasiwn Cymdeithasau Tai Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.
(3) Rhoddodd y sefydliadau canlynol gyflwyniadau i'r Pwyllgor: Arolygiaeth Tai Gwerth Gorau, Gofal a Thrwio Cymru, Cymuned, Gwasanaeth Tan Cymru, Fforwm Ymgynghorol Cenedlaethol ar Dai yng Nghymru, National House Building Council, Gwasanaeth Prawf Cenedaethol Cymru a Lloegr, Gwasanaethau Heddlu Cymru, RNIB, RNID, University of York, Fforwm Cynghorau Lleol Cymru, Wales TUC Cymru, Ffederasiwn Cymdeithasau Tai Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
(4) Yr aelodau cyfredol sydd wedi'u henwebu yw Gwenda Thomas a Janet Ryder

PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI

BLAENRAGLEN WAITH STRATEGOL MAI 2002-EBRILL 2003

Rhagarweiniad

1. Mae'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai yn un o saith pwyllgor pwnc y Cynulliad. Rhestrir cyfrifoldebau'r pwyllgorau pwnc yn y Rheolau Sefydlog, ac fe'i hatgynhyrchir yn **Atodiad 1.**

2. O dan Reol Sefydlog 9.9 mae'n rhaid i bwyllgorau pwnc gynnal rhaglenni gwaith treigl a fydd yn cynnwys cyfnodau o 12 mis o leiaf. Rhaid i'r Pwyllgor drafod y rhaglen â phwyllgorau eraill a Chabinet y Cynulliad cyn hysbysu'r Cynulliad mewn cyfarfod llawn. Mae'r Panel Cadeiryddion wedi cytuno y dylai rhaglenni gwaith y pwyllgorau fod yn strategol ac y dylent gynnwys cyfnod o rhwng 18 a 24 mis. Cefnogir y rhaglen strategol hon gan raglen fanylach sy'n cynnwys cyfnod o dri mis. Mae'r rhaglen waith hon yn nodi blaenoriaethau strategol y Pwyllgor rhwng Mai 2002 ac etholiadau nesaf y Cynulliad ym Mai 2003. Pennir manylion terfynol raglen waith fanwl ar gyfer y cyfnod Mai-Gorffennaf 2002 yn nes ymlaen yn y tymor

Cylch Gwaith

3. Mae cylch gwaith y Pwyllgor yn cyd-fynd â chylch gwaith Edwina Hart, Gweinidog y Cynulliad dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau. Mae polisïau ei gylch gwaith yn cynnwys llywodraeth leol a materion cyllid, tai, adfywio cymunedol ac atal troseddu. Nid yw, fodd bynnag, yn mynd i'r afael â chyfrifoldebau Edwina Hart fel Gweinidog Cyllid.

Amcanion

4 Nod y Pwyllgor yw llwyddo i gael gwell ansawdd bywyd ar gyfer pobl Cymru a hybu gwell llywodraeth a llywodraeth symlach. Dyma'i amcanion:

- Helpu pobl leol, yn arbennig y rhai hynny sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig, i ddatblygu cymunedau hyderus, gyda chartrefi gweddus, cyfleusterau lleol da ac amgylchedd o ansawdd uchel, sy'n anfygythiol a heb drosedd;

- Darparu gwerth am arian ar gyfer pobl Cymru, gyda gwasanaethau gwell a mwy effeithlon;

- Symleiddio gwaith y Cynulliad a rhoi llawer mwy o bwyslais ar anghenion a barn ein partneriaid a'r cyhoedd, gan gynnwys grwpiau nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n deg.

Blaenoriaethau

5. Gyda chylch gwaith mor eang, mae'r pwyllgor wedi datblygu dulliau strategol i'w waith. Dyma'r blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf:

- Datblygu polisi (SO 9.7(i) – bydd y Pwyllgor yn canolbwyntio ar y meysydd hynny o ddatblygu polisi lle y bydd yn ategu yn hytrach na dyblygu polisïau a ddatblygir gan y Gweinidog. Yn ystod y flwyddyn nesaf bydd yn parhau gyda'i adolygiad o Adfywio Cymunedol ac yn parhau i gyfrannu at ddatblygu polisi o strategaethau a mentrau gweinidogol ar draws ystod lawn cyfrifoldebau llywodraeth leol a thai y Gweinidog. Yn arbennig:
- datblygu'r strategaeth Dai Genedlaethol a'i goblygiadau, gan gynnwys yr argymhellion sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Comisiwn Digartrefedd;
- datblygu a gweithredu'r Rhaglen Cymunedau'n Gyntaf;
- moderneiddio llywodraeth leol; a
- polisi llywodraeth leol a chyllid;
  Bydd yn cael cyflwyniadau rheolaidd oddi wrth Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a sefydliadau eraill â diddordeb o'r sectorau cyhoeddus, gwirfoddol a chymunedol i hyrwyddo ei werthfawrogiad o'r holl faterion sydd wedi'u cynnwys yn ei gylch gwaith.

- *Archwiliad manwl o berfformiad y Gweinidog (SO 9.7(ii))* – yn fisol bydd y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn darparu adroddiad ysgrifenedig i'r Pwyllgor ar y datblygiadau cyfredol o fewn ei chylch gwaith. Yn y cyfamser, bydd hefyd yn darparu adroddiad llafar ar y datblygiadau sydd wedi digwydd. Unwaith y flwyddyn bydd y Pwyllgor yn cynnal archwiliad manwl o'r Gweinidog o ran ei berfformiad yn erbyn targedau, ond gall hefyd ymgymryd â sesiynau archwilio thematig o bryd i'w gilydd. Mae'r Pwyllgor hefyd yn bwriadu cynnal yr archwiliad canlynol:
- yr Adroddiad Cynhwysiant Cymdeithasol.
  Mae'r pwyllgor hefyd yn dymuno archwilio'r posibilrwydd o gynnal archwiliad o weithredu Adroddiad Waterhouse i'r graddau ag y mae hyn yn effeithio ar yr awdurdodau leol. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod gweithredu Waterhouse y tu allan i gylch gwaith y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau. Mae hefyd yn cydnabod bod gweithredu'r adrodiad yn effeithio'n sylweddol ar yr awdurdodau lleol.

- Craffu ar gyrff a noddir (Rheol sefyldlog SO 9.7 (iii)) -ychydig iawn o Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor. Fodd bynnag, bydd yn parhau i gael adroddiadau ar waith y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol.

- *Eitemau eraill (Rheol Sefydlog 9)*bydd y Pwyllgor yn hybu cydgysylltu gwasanaethau trwy ei gysylltiadau â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chyngor Cynghorau Lleol Cymru sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Bob blwyddyn bydd y Pwyllgor hefyd yn ystyried adroddiad sy'n

adolygu gweithredu'r Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol, cyn i gyfarfod llawn y Cynulliad ystyried yr adroddiad.

- *Deddfau arfaethedig sy'n effeithio ar Gymru (SO 9.8(i) a 22)* – bob tymor bydd y Gweinidog yn amlinellu is-ddeddfwriaeth sydd ar y gweill i alluogi'r Pwyllgor i nodi meysydd y mae am ymgynghori ynglyn â hwy. Yn dilyn ystyriaeth y Cynulliad Cenedlaethol o araith y Frenhines, bydd y Pwyllgor yn ystyried unrhyw ddeddfwriaeth sylfaenol ddrafft y bydd y Cyfarfod Llawn yn anfon yn ôl ato. Bydd y Pwyllgor hefyd yn ystyried is-ddeddfwriaeth ddrafft y bydd y Pwyllgor Busnes yn ei chyfeirio ato.
- *Cynigion ar gyfer cyllideb y Cynulliad* (SO 9.8(ii)) – bydd y Pwyllgor yn nodi ei flaenoriaethau cyllidebol yn nhymor yr haf ac yn cynnig sylwadau ar y gyllideb ddrafft yn nhymor yr hydref.

- *Cwynion* (SO 9.8(iii) a 21) – bydd y Pwyllgor yn ystyried unrhyw gwynion sy'n cael eu cyfeirio ato

- *Penodiadau cyhoeddus* (SO 9.8(iv) a 20) – bydd y ddau a enwebodd y Pwyllgor ar gyfer penodiadau cyhoeddus yn cymryd rhan yn y broses benodi i gyrff cyhoeddus wrth i swyddi gwag godi.

- *Materion eraill sy'n cael eu cyfeirio gan y Cynulliad* (Rheol Sefydlog 9.8 (v)) Bydd y Pwyllgor hefyd yn ystyried unrhyw faterion eraill y bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn eu cyfeirio ato, ond fe hoffai ofyn i Aelodau ymghygngori â Chadeirydd y pwyllgor cyn cyflwyno cynigion yn gwahodd y cyfarfod llawn i roi gwaith yng nghlych gwaith y Pwyllgor.

Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor
Ionawr 2002

Y PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI

BLAENRAGLEN WAITH FANWL: HAF 2002
(Dyddiadau bras)

Cyfarfod	Eitem	Eitemau'r Agenda
Dydd Mercher 24 Ebrill 2002	1 2 3 4 5 6 7	Adroddiad y Gweinidog (ysgrifenedig) Y diweddaraf am y camau a gymerwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol yn dilyn adroddiad y Comisiwn Digartrefedd Adolygiad ar eithrio o dai cymdeithasol – ystyried yr adroddiad terfynol ar eithrio o dai cymdeithasol Adroddiad Waterhouse – goblygiadau gweithredu argymhellion adroddiad Waterhouse Blaenraglen waith – ystyried y flaenraglen waith strategol derfynol Adolygiad Polisi ar Adfywio Cymunedol – cyflwyniad gan yr Awdurdod Tân Adolygiad Polisi ar Adfywio Cymunedol – ystyried materion sy'n codi
Dydd Mercher 8 Mai 2002	1 2 4 5 6 7 8	Adroddiad y Gweinidog (llafar) Cyllid craidd ar gyfer mudiadau gwirfoddol sy'n ymdrin â digartrefedd – ystyried canlyniadau'r adolygiad Cynllun Gwarchod Bondiau –Adolygiad o'r flwyddyn gyntaf [Cyflwyniad gan Heddlu Trafnidiaeth Prydain] Ystyried data'r Gwasanaethau Cymdeithasol Personol (PSS) ar gyfer fformiwla'r Asesiad o Wariant Safonol (SSA) am 2003-04 Cyflwyno adroddiad cynnydd i'r Cyfarfod Llawn Rhoi Cymunedau'n Gyntaf – Adroddiad ar y camau a gymerwyd hyd yn hyn
Dydd Mercher 22 Mai 2002	1 2 3 4 5 6 7	Adroddiad y Gweinidog (ysgrifenedig) Cymharu perfformiadau awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr (gan gynnwys cyflwyniad gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA)) Adroddiad Gweithgor Diogelwch Tân Cymunedol Partneriaethau Lleihau Troseddau – adroddiad cynnydd Arbed ynni mewn tai mewn ardaloedd gwledig Adolygiad Polisi ar Adfywio Cymunedol – ystyried argymhellion drafft Cyflwyniad gan Syniad ar yr hyfforddiant sydd ar gael i swyddogion ac aelodau llywodraeth leol yn y strwythurau rheoli gwleidyddol newydd

Dydd Iau 30 Mai 2002		Cyfle i'r Pwyllgor gymryd rhan mewn gweithgareddau neu, yn amodol ar gytundeb y Pwyllgor Busnes, mewn cyfarfod Pwyllgor ffurfiol neu ymweliadau allanol
		TORIAD Y SULGWYN 3 - 7 MEHEFIN 2002
Dydd Mercher 12 Mehefin 2002	1 2 3 4 5	Adroddiad y Gweinidog (llafar) Polisi gosod tai cymdeithasol – ystyried canlyniadau'r ymchwil Polisi Llywodraeth Leol – Ystyried yr ymatebion i Bapur Llywodraeth Leol 'Rhyddid a Chyfrifoldeb mewn Llywodraeth Leol' Adolygiad Polisi ar Adfywio Cymunedol – ystyried yr adroddiad drafft Cyflwyniad gan y Comisiwn Hawliau Anabledd ar ddarparu tai i bobl anabl
Dydd Mercher 26 Mehefin 2002	1 2 3 4 5 6	Adroddiad y Gweinidog (ysgrifenedig) Lefelau rhent tai cymdeithasol – ystyried canlyniadau'r prosiect ymchwil [Cyflwyniad gan y Panel Asesu Rhent] Y diweddaraf ar 'Ailfeddwl Adeiladu' [Cyflwyniad gan y Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch] Effaith polisi cyfle cyfartal ar y prynu a'r adeiladu a wneir gan llywodraeth leol
Dydd Iau 4 Gorffennaf 2002		Cyfle i'r Pwyllgor gymryd rhan mewn gweithgareddau neu, ar amodol ar gytundeb y Pwyllgor Busnes, mewn cyfarfod Pwyllgor ffurfiol neu ymweliadau allanol.
Dydd Mercher 10 Gorffennaf 2002	1 2 3 4	Adroddiad y Gweinidog (llafar) Cyllideb – Ystyried papur materion y Gweinidog Cefnogi Pobl Adolygiad Polisi ar Adfywio Cymunedol – adroddiad terfynol

Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau
Mawrth 2002

ATODIAD A

CYFRIFOLDEBAU'R PWYLLGORAU PWNC

1. Mae rheolau sefydlog 9.7 a 9.8 yn nodi cyfrifoldebau'r pwyllgorau pwnc.

"9.7 Bydd pob pwyllgor pwnc

(i) yn cyfrannu at ddatblygu polisïau'r Cynulliad o fewn y mewysydd y mae Ysgrifennydd perthnasol y Cynulliad yn gyfrifol amdanynt i'r Cynulliad.
(ii) yn cadw llygad ar y gwariant a'r gweinyddu sy'n gysylltiedig â'u gweithredu: a
(iii) yn cadw llygad ar gyflawni swyddogaethau cyhoeddus yn y meysydd hynny sydd wedi'u lenwi gan gyrff cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat.

"9.8 O fewn y meysydd perthnasol, bydd pob pwyllgor pwnc hefyd:

(i) yn cynghori ar ddeddfwriaeth sy'n effeithio ar Gymru, gan gynnwys cyflawni ei swyddogaethau o dan reol sefydlog 22;
(ii) yn cynnig cyngor i Gabinet y Cynulliad ar faterion sy'n ymwneud â dyrannu cyllideb y Cynulliad yn unol â rhol sefydlog 19;
(iii) yn cyflawni ei swyddogaeth o dan reol sefydlog 21 (cwynion);
(iv) yn cyflawni unrhyw swyddogaethau a ddyrennir iddo o dan Weithredfn y Cod Ymarfer ar benodiadau Cyhoeddus a wneir gan y Cynulliad o dan reol sefydlog 20; a
(v) yn ystyried materion y bydd y Cynulliad yn ei cyfeirio ato o fewn ei feysydd."